# COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD IAU 24 CHWEFROR 2022

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams a S L Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir

## 2. DATGAN BUDD

Nid oedd unrhyw ddatganiad budd i'w nodi.

## 3. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022-2027 A CHYLLIDEB 2022-23 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2022-2027

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Aled Davies atal Rheolau 4.37.1, 4.43, 4.49.2.1 a 4.49.2.2 yn y Cyfansoddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac o 45 pleidlais i 19

**PENDERFYNWYD atal Rheolau 4.37.1, 4.43, 4.49.2.1 a 4.49.2.2 yn y Cyfansoddiad.**

Cynigiodd Daliwr y Portffolio Cyllid, y Cynghorydd Sir Aled Davies, ddiwygio'r argymhellion ar gyfer y gyllideb:

1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022-23 gan gynnwys cynnydd o 3.4% yn Nhreth y Cyngor yn 2022-23 ar gost net o £396,000, a chyfarwyddo'r Swyddog Adran 151 i gyhoeddi Model Adnoddau Ariannol diwygiedig (lle bo angen) cyn gynted â phosib.

2. Bod cost argymhelliad 1 yn cael ei ariannu gan leihad yn y Gyllideb Isafswm Refeniw / Cyllideb Llog Allanol o £396,000.

Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan.

Gohiriwyd y Cyngor rhwng 11.10am a 1.15pm fel y gallai'r grwpiau gwleidyddol ystyried y diwygiad.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y diwygiad a'i basio o 35 pleidlais i 32 a daeth yn gynnig parhaol.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir David Thomas ddiwygiad i'r cynnig parhaol, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance, yn cynnig cynnydd o 0% i Dreth y Cyngor drwy ddefnyddio cronfa reoli'r gyllideb.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y diwygiad a'i basio o 34 pleidlais i 31 a daeth hwn wedyn yn gynnig parhaol.

Gohiriwyd y Cyngor rhwng 3.12pm a 4.00pm.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig parhaol i Argymhelliad 2 ar gyfer cynnydd o 0% i Dreth y Cyngor. Collwyd o 31 pleidlais i 33.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Aled Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, ohirio'r cyfarfod. Pasiwyd yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cyfarfod tan 3 Mawrth.**

**Y Cynghorydd Sir RG Thomas**
**Cadeirydd**